**Cyngor Cymuned Llanrug**

**Rheolau'r Fynwent**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r rheolau yma ar gyfer mynwent Cyngor Cymuned Llanrug

## 2. Manylion Cyswllt

2.1 Mae'n rhaid i bob cais am angladd, ymholiadau, neu sylwadau gael ei gwneud drwy'r clerc,

Mr Meirion Jones
7 Nant y Glyn
Llanrug
Gwynedd
LL55 4AH

clerc@llanrug.cymru

2.2. Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegol at ddarpariaethau Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 ac unrhyw reoliadau priodol eraill sydd mewn grym ar hyn o bryd.

## 3. Mynediad i'r fynwent

3.1. Mae'r fynwent ar agor i ymwelwyr bob dydd o'r flwyddyn yn ystod yr amseroedd canlynol:

| | |
|---|---|
| Ebrill – Medi | 09:00 – 20:00 |
| Hydref – Mawrth | 09:00 – 16:30 |

Ni chaniateir i unrhyw un fod yn y Fynwent y tu allan i'r oriau agor cyhoeddedig heb ganiatâd penodol y clerc.

DATGANIAD CENHADAETH

Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn gweithredu ac yn rheoli
Mynwent Cyngor Cymuned Llanrug.

Gweithredir y fynwent yn bennaf er mwyn diwallu anghenion pobl yr ardal.

Wrth reoli'r cyfleusterau hyn, cenhadaeth y Cyngor yw:

- sicrhau ei fod yn bodloni cyfreithiau claddu neu unrhyw gyfreithiau eraill a allai fod yn berthnasol mewn gweithrediad o'r fath

- trin y rhai sy'n cysylltu â ni gyda'r gofal, y trugaredd a'r ddealltwriaeth sy'n briodol wrth ddelio â phobl mewn profedigaeth

- sicrhau diogelwch ymwelwyr a gweithwyr yn y Fynwent

- atal unrhyw rwystrau i orchwylion cynnal a chadw synhwyrol ac arferol

- sicrhau bod cymeriad y fynwent, o ran gwaith cynnal a chadw / ymddangosiad ac yn y blaen, yn gyson â dymuniadau'r preswylwyr / defnyddwyr y Fynwent

- sicrhau y gall teulu'r ymadawedig gladdu eu hanwyliaid a galaru am eu hanwyliaid mewn amgylchedd y mae'r mwyafrif o bobl yn credu sy'n briodol (amgylcheddau heddychlon a thawel sy'n gydnaws â myfyrio tawel)

- lleihau'r baich ariannol i dalwyr y Dreth Gyngor drwy geisio canfod ffyrdd i leihau costau cynnal a chadw'r tirlun yn gyson, heb leihau safonau garddwriaethol

- lleihau costau rhedeg mynwentydd, i'r graddau y bydd hynny'n ymarferol, i dalwyr y Dreth Gyngor drwy godi ffioedd a thaliadau amrywiol

- ceisio canfod ffyrdd o wella'r gwaith o reoli ein mynwentydd yn barhaus, gan ganolbwyntio'n benodol ar y broses gladdu

3.2. Mae'r fynwent yn le o heddwch a myfyrdod tawel. Mae hefyd yn weithle. Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn croesawu ymwelwyr i'r fynwent, ond gofynnir iddynt barchu natur arbennig y safle, anghenion defnyddwyr eraill, a ffactorau diogelwch. Ni chaniateir unrhyw gemau, chwaraeon, marchogaeth beiciau, sglefr fyrddau, llafnau rholer na thebyg yn y fynwent. Ni chaniateir yfed alcohol o fewn y fynwent, ac ni chaniateir i unrhyw un o dan effeithiau cyffuriau sydd ddim wedi darpar gan feddyg neu sylweddau o'r fath gael mynediad i'r fynwent.

3.3. Bydd yn ofynnol i unrhyw berson sy'n creu niwsans neu aflonyddwch, megis ymyrryd ag angladd, bedd, carreg fedd, blodau, coed ac ati, adael y fynwent ar unwaith a gallent fod yn destun achos cyfreithiol dilynol.

3.4. Mae croeso i blant h.y. dan 18 oed yn y fynwent ond rhaid iddynt gael eu goruchwylio gan oedolyn cyfrifol. Mae'n arbennig o bwysig na chaniateir i blant ddringo ar unrhyw gofebion, coed neu eitemau eraill yn y fynwent.

3.5. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent ac eithrio cŵn tywys, cŵn clyw neu gŵn cymorth cydnabyddedig eraill, neu gyda chaniatâd penodol y clerc.

3.6. Caniateir cerbydau yn y fynwent ond rhaid iddynt beidio â bod yn uwch na therfyn cyflymder o 5mya a rhaid iddynt ufuddhau i unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddynt gan y cyngor. Rhaid i gerbydau gadw at y prif ffyrdd a'r mannau parcio dynodedig ac osgoi parcio drwy achosi niwsans neu ddifrod i unrhyw feddau neu ardaloedd glaswelltog. Ni all y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb am golled neu ddifrod i unrhyw gerbyd a'i gynnwys tra yn y fynwent.

3.7. Croeso i ymwelwyr ag anableddau neu ofynion arbennig eraill gysylltu â chlerc y cyngor a fydd yn falch o gynorthwyo.

## 4. Rheoliadau Cyffredinol

4.1. Ni chaniateir i unrhyw aelod neu staff y Cyngor gymryd unrhyw arian rhodd, na gwneud gwaith preifat taledig o unrhyw fath mewn cysylltiad â'r fynwent naill ai yn eu hamser eu hunain neu yn ystod eu horiau cyflogedig.

4.2. Ni chaiff neb ganfasio na deisyfu busnes yn y mynwentydd.

4.3. Rhaid talu'r holl ffioedd am gladdedigaethau neu waith coffa yn llawn i'r Cyngor ymlaen llaw.

4.4. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi graddfa o ffioedd a thaliadau yn flynyddol. Bydd preswylwyr yr ardal yn gymwys i gael ffioedd is o gymharu â phobl nad ydynt yn breswylwyr. Diffinnir preswylydd fel rhywun sydd wedi bod a'i brif breswylfa oddi fewn i ardal Cyngor Cymuned Llanrug am 5 mlynedd barhaol cyn dyddiad ei farwolaeth,

4.5 Fel arfer, fe gynhelir angladdau ar ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Fodd bynnag gellir gwneud trefniadau i gynnal angladd ar ddydd Sul ac ar Ŵyl y Banc drwy gysylltu â'r clerc. Gellir cynnal angladd ar unrhyw amser.

4.6. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r rheoliadau hyn ac i ddelio ag unrhyw amgylchiadau neu sefyllfaoedd na ddarperir yn y rheoliadau hyn yn ôl yr angen.

## 5. Beddi

5.1. Mae beddau yn y fynwent, yn gysegredig . Bydd y dewis o fannau bedd yn ôl disgresiwn terfynol y Cyngor, ac mewn achosion ble mae angen agor bedd o'r newydd, rhaid iddo ddilyn y rhes bresennol.

5.2. Bydd pob claddedigaeth yn digwydd naill ai mewn bedd preifat neu gyhoeddus. Mae beddau preifat yn feddau y mae Hawl Claddu Unigryw wedi'u rhoi iddynt.

Mae beddau cyhoeddus yn feddau sy'n parhau ym mherchnogaeth y Cyngor ac na roddwyd unrhyw hawliau penodol iddynt.

5.3. Ni fydd yn bosib i neb brynu hawl claddu unigryw ym mynwent Llanrug. Mae'r Hawl Claddu Unigryw sydd eisoes wedi ei brynu yn caniatáu gosod cofeb ar y bedd.

5.4. Ni ellir cadw beddau ymlaen llaw. Dim ond drwy'r broses gyfreithiol a nodir yn Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 y gellir trosglwyddo'r Hawl Claddu Unigryw i berson arall.

5.5. Mewn beddau cyhoeddus, mae'r Cyngor yn ymrwymo i adael 20 mlynedd cyn caniatáu claddu person nad yw'n gysylltiedig â'r gladdedigaeth wreiddiol. Gall y Cyngor ganiatáu claddu pobl sydd â chysylltiad â'r bedd o fewn 20 mlynedd. Gall y Cyngor ganiatáu i aelod o'r teulu brynu'r Hawl Claddu Unigryw cyn i'r cyfnod o 20 mlynedd ddod i ben ond bydd yn rhaid dilyn y drefn gyfreithiol i hyn.

5.6. Fe ganiateir cofebion ar feddau. Rhaid i gofebion gydymffurfio â'r rheoliadau a roddir yn 9 isod.

5.7. Y mathau o feddau sydd ar gael yw, beddau lawnt a beddau gweddillion amlosgi. Mae beddau lawnt yn cael eu gosod ar lawnt a chaniateir carreg fedd yn unig. Mae beddau ar gael ar gyfer claddu gweddillion amlosged ac fe ganiateir carreg fedd. Nid oes uchafswm ar faint cofeb a bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol. (gwêl 12.8 isod).

5.8. Bydd pob bedd yn cael ei gloddio a'i baratoi i'w gladdu gan yr ymgymerwyr angladdau neu ei gontractwyr penodedig yn unig. Ni chaniateir i unrhyw berson na chwmni arall wneud unrhyw gloddio yn y fynwent ac eithrio gyda chaniatâd penodol y clerc. Bydd dyfnder pob bedd yn cael ei bennu gan y Cyngor yn unol â darpariaethau Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977.

5.9. Yn dilyn y gladdedigaeth bydd yr ymgymerwr neu ei gontractwr yn lefelu'r bedd a naill ai'n ail-dywarchan neu'n uwch bridio a'i hadu fel sy'n briodol i'r tymor.

## 6. Eirch

6.1. Rhaid gwneud eirch a wrn i'w claddu o ddeunyddiau bioddiraddadwy addas fel pren, gwiail, ffon, bambŵ, gwlân, cardbord ac ati.

## 7. Archebu Claddedigaethau

7.1. Ni ellir neilltuo dyddiad ac amser yn y fynwent dros dro. Bydd yr ymgymerwr yn cysylltu â'r clerc, yn y lle cyntaf i holi caniatâd i gladdu drwy e-bost a bydd cadarnhad yn cael ei ganiatáu cyn gynted ag sydd yn bosib. Fe ddarperir ymateb cyn gynted â phosib, er sicrhau nad oedd angladd arall yn y fynwent yr un adeg. Yn gyffredinol, ni fydd mwy nag un angladd yn y fynwent mewn un diwrnod.

7.2. Dylai' cadarnhad o'r claddedigaeth ei gyflwyno drwy anfon rhybudd claddedigaeth (ffurflen a ddarperir gan y cyngor) i 7 Nant y Glyn, Llanrug, Gwynedd, LL55 4AH neu drwy e-bost at y clerc o leiaf 48 awr waith cyn dyddiad ac amser arfaethedig yr angladd. Bydd derbyn yr Hysbysiad Claddedigaeth wedi'i gwblhau'n llawn ac yn gywir yn gadarnhad o'r archeb dros dro.

7.3. Rhaid rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl am yr angladd i'r cyngor ymlaen llaw.

7.4. Mewn bedd ble mae'r hawl claddu wedi ei brynu ac i gael i'w ailagor ar gyfer claddedigaeth bellach, rhaid rhoi caniatâd ysgrifenedig perchennog y bedd cofrestredig.

7.5. Cyfrifoldeb y sawl sydd yn gwneud trefniadau'r angladd yw sicrhau bod unrhyw gofeb ar y bedd yn cael ei symud ohono os yn briodol

7.6. Rhaid cyflwyno'r dystysgrif a roddir gan y Cofrestrydd Genedigaethau a Marwolaethau neu orchymyn y Crwner i'r clerc o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl yr angladd

7.7. Bydd y Cyngor yn pennu'r ffioedd priodol i'w talu am yr angladd, y mae'n rhaid eu talu'n llawn o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl yr angladd yn uniongyrchol i gyfrif banc y cyngor.

## 8. Claddedigaethau

8.1. Fel rheol dim ond o ddydd Llun i ddydd Sadwrn y caniateir angladdau (ac eithrio'r gwyliau'r banc neu wyliau cyhoeddus eraill).

8.2. Bydd pob angladd yn ddarostyngedig i reolau'r fynwent.

8.3. Rhaid cadw at yr amser a benodir ar gyfer claddedigaeth yn brydlon.

8.4. Rhaid i wasanaethau yn y fynwent beidio â bod yn fwy na 60 munud, oni bai bod trefniadau arbennig wedi eu gwneud gyda chlerc y cyngor.

8.5. Cyfrifoldeb yr unigolyn sy'n gwneud trefniadau'r angladd yw trefnu Gweinidog neu Swyddog ar gyfer yr angladd os oes angen un.

8.6 Ni chaniateir defnydd o 'drones' yn y fynwent.

## 9.0 Teyrngedau Blodau

9.1 Bydd unrhyw deyrngedau blodau o'r angladd yn cael eu gosod ar ben y bedd a byddant yn aros yn eu lle am o leiaf 14 diwrnod. Ar ôl 14 diwrnod fe ddisgwylir i'r teulu glirio'r teyrngedau a'i gwaredu . I'r perwyl hwn, bydd y cyngor yn darparu biniau ail gylchu sydd wedi eu lleoli oddi fewn i'r sied. Os na fydd y teyrngedau wedi eu symud ar ôl 14 diwrnod, yna bydd y cyngor yn dal yr hawl i'w gwaredu heb unrhyw gysylltiad â'r teulu.

9.1 Fe ddisgwylir i dorchau sydd wedi gosod ar gyfer amgylchiadau arbennig, e.e. Sul y Blodau, Sul y Mamau, Sul y Tadau, y Nadolig a’r Pasg, gael eu clirio ar ôl 14 diwrnod gan y teulu. Os na fydd y teulu yn gallu gwneud hyn, mae’r cyngor yn dal yr hawl i’w clirio a’i gwaredu heb unrhyw gysylltiad â’r teulu os byddant yn dirywio.

9.2 Ar gyfer pob achlysur arall, fe ddisgwylir i’r teulu waredu unrhyw dorchau neu deyrngedau blodau ar ôl 14 diwrnod. Os bydd y blodau yn dirywio, mae’r cyngor yn dal yr hawl i’w gwaredu heb unrhyw gysylltiad â’r teulu.

## 10.0. Cofebion

10.1 Mae llawer o bobl yn dewis gosod cofeb ar fedd eu teulu fel coffâd parhaol fywyd eu hanwyliaid. Dim ond un gofeb a ganiateir ar fedd. Dylech ddarllen Polisi Meinciau Coffaol y cyngor sydd ar gael o’i wefan neu gellir cael copi papur drwy gysylltu â’r clerc.

10.2 Gall eich saer meini coffa ddangos catalog i chi o’r cofebion y gall eu darparu, ond dylech gofio efallai na fydd pob un o’r cofebion a ddangosir yn addas.

10.3 Mae’r cyngor yn ceisio sicrhau bod seiri maen sy’n gweithio yn ein mynwentydd yn cydymffurfio’n llwyr â Chod Ymarfer Gweithio Cymdeithas Genedlaethol Seiri Meini Cofebion (NAMM) a Safon Brydeinig 8415 wrth osod cofebion yn y fynwent.

10.4 Ni all Cyngor Cymuned Llanrug argymell unrhyw saer coffa penodol, ond byddem yn cynghori i gymharu dyfynbrisiau gan amryw o seiri maen cyn archebu carreg fedd. Mae’n ddoeth cael dyfynbris llawn, wedi eitemeiddio ar gyfer y gwaith, fel y gallwch gymharu dyfynbrisiau ar sail debyg wrth debyg.

10.5 Nid oes unrhyw gyfyngiad penodol ar faint cofeb ar leiniau claddu neu amlosgi. Fodd bynnag, ar gais i godi cofeb, bydd pob cofeb yn cael ei hystyried yn unol â hynny, waeth beth ei faint (gweler 12.8 isod). Ni ellir cychwyn ar y gwaith heb ganiatâd ysgrifenedig y cyngor.

10.6 Ni chaniateir cynwysyddion gwydr gan eu bod yn chwalu'n hawdd ac yn berygl i'r cyhoedd a gweithwyr cynnal a chadw. Gall y cyngor neu ei gontractwyr awdurdodedig symud unrhyw eitemau o'r fath ar unwaith.

## 11.0. Cynnal a Chadw

Perchennog y gofeb sydd yn gyfrifol am ei chynnal a chadw. Os bydd yn mynd yn beryglus, mae cyfrifoldeb ar Gyngor Cymuned Llanrug fel rheolwyr y fynwent i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu ar y cyfle cynharaf posibl. Bydd hyn naill ai trwy roi polion pren i’w gynnal neu, mewn rhai amgylchiadau, trwy roi’r gofeb i orwedd ar lawr.

Efallai y bydd seiri coffa yn cynnig cynllun cynnal a chadw cofebion a fydd yn cynnwys glanhau a gwirio eich cofeb yn rheolaidd. Efallai yr hoffech ystyried trefnu yswiriant rhag i'ch cofeb gael ei niweidio'n ddamweiniol a rhag fandaliaeth a lladrad, oherwydd gallai'r gwaith atgyweirio fod yn ddrud. Dylai eich saer coffa allu argymell polisi addas i chi.

Ers 2010, mae'n ofynnol i seiri coffa roi Tystysgrif Cydymffurfiad i chi, sy'n ddilys am 30 mlynedd, ar ôl unrhyw osodiad neu ail-sefydlogi o'r newydd. Mae'r dystysgrif hon yn disodli gwarantau cyfnod ac yn rhoi sicrwydd y cydymffurfiwyd yn llwyr ag argymhellion y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) wrth osod y gofeb.

**12.0 Archwiliadau**

12.1 Caiff pob cofeb ym mynwent Cyngor Cymuned Llanrug eu profi bob tair neu bum mlynedd fel rhan o raglen dreigl blynyddol. Bydd dyddiad y prawf yn dibynnu ar leoliad bedd eich teulu. Edrychwch am hysbysiadau yn y fynwent ac yn y wasg leol, a fydd yn eich hysbysu pa bryd fydd y gwaith yma yn cael ei wneud. Cysylltwch gyda'r cyngor os ydych yn poeni y gall eich cofeb gwympo cyn dyddiad y prawf. Os ydych yn berchen ar fedd dywedwch wrthym os byddwch yn newid cyfeiriad fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion.

12.2 Unwaith i'r gofeb gael ei phrofi, ac wedi methu'r prawf, bydd y cyngor naill ai'n ysgrifennu at holl berchenogion cofrestredig y bedd (os yw'r manylion sydd gennym yn gywir), neu'n rhoi hysbysiad ar hysbysfwrdd y Fynwent. Bydd y rhain yn rhoi amser (tua mis) i berchennog neu berthynas i deulu pob bedd drwsio'r gofeb, cyn y bydd polion pren yn cael eu gosod ar y gofeb i'w hatal rhag cwympo.

12.3 Mae'r Cyngor gyda Pholisi Rheoli Cofebion sy'n delio â gosodiadau coffa cyfredol ac yn y dyfodol, archwiliadau diogelwch a gwneud cofebion ansefydlog yn ddiogel. Rhaid i seiri maen sy'n gwneud gwaith yn y mynwentydd gydymffurfio â Pholisi Rheoli Cofebion y Cyngor.

12.4 Rhaid i bob cofeb sy'n sefydlog yn y fynwent gydymffurfio â Safon Brydeinig 8415.

12.5 Rhaid i seiri maen coffa sy'n gosod cofebion ym mynwent Llanrug sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â Chod Ymarfer Gweithio Cymdeithas Genedlaethol y Seiri Coffa (NAMM) neu Lyfr Glas BRAMM, ac yn unol â Safon Brydeinig BS8415

12.6 Caniateir cofebion ar feddau a brynir ac ar feddau cyhoeddus.

12.7 Ni ellir codi ffensys o amgylch bedd na'r gofod a ddiffinnir ac ni ddylid gosod unrhyw wrthrychau ar hyd y bedd.

12.8 Cyn y gellir codi unrhyw gofeb neu wneud gwaith i gofeb sy'n bodoli eisoes, rhaid cyflwyno cais i' r Clerc ar y ffurflen briodol a ddarperir gan y Cyngor a thalu'r ffi berthnasol. Mae rhestr o'r ffioedd perthnasol yn ymddangos fel

apendics 1 i’r polisi hwn Rhaid i berchennog y bedd lofnodi'r ffurflen i roi ei ganiatâd ar gyfer y gofeb / gwaith arfaethedig. Ar ôl cael ei gymeradwyo gan y Cyngor, rhoddir caniatâd i'r Saer Coffa cyfrifol.

12.9 Rhaid adeiladu cofebion o ddeunyddiau sy'n addas i'r amgylchedd. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod cais am unrhyw gofeb mae'n ei hystyried yn anaddas.

12.10 Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar uchder a lled cofeb, ond rhaid iddo fod o leiaf 3” o drwch. Bydd pob cais yn cael ei benderfynu gan y cyngor yn ôl ei deilyngdod, gan ystyried priodoldeb y gofeb o fewn y fynwent. Ni fydd y cyngor yn caniatáu gosod cyrbiau.

12.11 Rhaid i'r saer maen gofnodi enw'r cwmni ar gefn y garreg tuag at y gwaelod yn unig mewn llythrennau nad ydynt yn fwy nag 1” o uchder neu gyda sticer berthnasol.

12.12 Rhaid i seiri maen coffa symud yr holl godiadau o'r fynwent ar ddiwedd eu gwaith, a rhaid iddynt adael yr ardal mewn cyflwr taclus. Nid yw'n bosibl storio cofebion yn y fynwent cyn eu hail-osod yn dilyn claddedigaeth - rhaid i'r saer maen coffa a benodwyd symud y cofebion o’r safle cyn i'r bedd gael ei gloddio.

## 13.0 Gofalu am Feddau a Chofebion

13.1 Cyfrifoldeb y perchennog yn unig yw pob cofeb a godir ac ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i'r gofeb neu a achosir gan y gofeb. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i atgyweirio neu wneud yn ddiogel unrhyw gofeb sydd ym marn y cyngor yn anniogel neu'n adfeilio, ac mae’r cyngor gyda’r hawl i adennill unrhyw gostau gan y perchennog cofrestredig. Bydd y Cyngor yn cynnal gwiriadau diogelwch arferol ar bob cofeb, ac yn hysbysu perchennog y bedd yn y cyfeiriad cofrestredig diwethaf am unrhyw waith angenrheidiol i wneud y gofeb yn ddiogel. Rhoddir cyfnod o 6 mis i berchennog y bedd o ddyddiad y llythyr i gyflawni'r atgyweiriadau angenrheidiol. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud unrhyw waith ar gofebion i’w gwneud yn saff hyd nes bod y gwaith o'r fath wedi'i gwblhau. Os na fydd perchennog y bedd yn trefnu i'r atgyweiriadau gael eu gwneud, caiff y Cyngor atgyweirio neu symud y gofeb ar draul y perchennog.

13.2 Mae'r Cyngor yn argymell bod perchnogion beddau yn llunio cynllun yswiriant ar gyfer eu cofeb.

13.3 Rhaid cadw lleoedd bedd mewn cyflwr taclus, a rhaid symud yr holl sbwriel o'r safle

13.4 Bydd y cyngor yn caniatáu mathau eraill o eitemau coffaol megis placiau, placiau lluniau porslen mewn claddu a gweddillion amlosgedig. Cysylltwch â'r clerc am fwy o wybodaeth.

13.5 Ni ellir gosod sedd, mainc nac addurn yn y Fynwent heb ganiatâd y Cyngor. Dylid cyflwyno ceisiadau am ganiatâd i leoli sedd neu fainc i'r Clerc. Rhaid i

unrhyw feinciau fod o wneuthuriad solet a chael eu gosod yn ddiogel a gallent gynnwys plac coffa.

## 14.0 Ailgylchu.

14.1 Rhaid i'r holl ddeiliaid blodau neu eitemau eraill sy'n cael eu gadael ar feddau gael eu gwneud o ddeunydd na ellir ei dorri. Mae unrhyw eitemau a adawir ar feddau ar risg y perchnogion ac ni ellir dal y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ladrad neu ddifrod iddynt sut bynnag achoswyd. Gall y Cyngor symud unrhyw eitemau o unrhyw fedd sy'n debygol o achosi risg, difrod neu dramgwydd i holl ddefnyddwyr o'r fynwent neu sy'n ymyrryd â gwaith cynnal a chadw ar y safle.

14.2 Er mwyn diogelu cymeriad y fynwent ac osgoi atyniadau a allai annog ymwelwyr digroeso yn ystod y nos, fel egwyddor gyffredinol, bydd nifer y goleuadau solar yn cael eu cyfyngu i un neu ddau o oleuadau ar unrhyw fedd. Dylid sicrhau bod y goleuadau hyn ond yn rhyddhau golau gwyn, ysgafn a dylai'r goleuadau solar fod yn oleuadau arddull llusern yn ddelfrydol. Dylid sicrhau nad yw'r goleuadau hyn, yn cynnwys eu stand, yn uwch na'r uchder a ganiateir ar gyfer carreg fedd, ac ni ddylai mathau eraill o oleuadau fod yn fwy na 30cm (12 modfedd) o uchder. (Nodwch reol 14.4 isod, sy'n gysylltiedig â phob math o eitemau, ond sy'n eithrio'n benodol unrhyw oleuadau nad ydynt yn cael eu pweru gan ynni solar).

14.3 Caniateir cofebion ar ffurf clychau gwynt / melinau gwynt. Ni ddylent fod yn uwch na 30 cm (12 modfedd), ac yn nhermau maint a nifer ar unrhyw un bedd unigol, ni ddylai maint cofebion o'r fath amharu ar bartïon angladd nac ymwelwyr eraill i'r mynwentydd.

14.4 Ac eithrio'r goleuadau solar a chlychau gwynt / melinau gwynt y cyfeirir atynt yn rheolau 14.2 a 14.3 uchod, mae eitemau sy'n cael eu pweru gan y gwynt, yr haul, batris neu unrhyw ffordd arall er mwyn rhyddhau golau neu sain wedi'u gwahardd yn benodol o'r fynwent. Fe ystyrir fod eitemau o'r fath (neu ormod o eitemau o'r fath) yn cael effaith niweidiol ar gymeriad y fynwent neu ar y tawelwch a ddisgwylir gan bartïon angladd ac ymwelwyr mewn profedigaeth.

14.5 Ni chaniateir unrhyw ddeunyddiau neu eitemau coffaol sydd, ym marn y cyngor yn cyflwyno risg i iechyd a diogelwch gweithwyr y fynwent neu unrhyw ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys er enghraifft, eitemau o wydr neu lusernau gyda phwynt ar eu pennau. Gall y cyngor symud unrhyw ddeunyddiau neu eitemau o'r fath heb rybudd ymlaen llaw.

14.6 Ni chaniateir plannu coed yn y fynwent. Gall y Cyngor symud unrhyw blanhigion y mae'n ei ystyried yn anaddas neu sydd yn ymyrryd ar waith cynnal a chadw.

14.7 Gellir cynnwys placiau llun yn y cais am gymeradwyaeth am gofeb.

14.8 Y Clerc, y gellir cysylltu ag ef, fydd yn rheoli'r data a ddarperir gennych. Mae'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu, ac unrhyw wybodaeth arall a gafwyd neu a ddarparwyd yn ystod y cais yn ofyniad statudol i alluogi gweithrediad cyfreithlon ein mynwent. Bydd methu â darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdano yn effeithio ar y gwasanaeth a gewch. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio at ddiben gweinyddu Mynwent y Cyngor yn unig. Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw fel rhan o gofnodion gweinyddol ac ariannol Cyngor Cymuned Llanrug, hyd nes na fydd gofyniad gweinyddol mwyach, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei harchifo. Efallai y bydd eich enw chi yn unig, ac unrhyw fanylion eraill a ddarperir gennych, yn cael eu darparu i unrhyw gais a dderbynnir o dan delerau sefydlu perchnogaeth bedd, ond nid o dan unrhyw amgylchiadau eraill. Mae gennych yr hawl i gludadwy data, gofyn am fynediad i, cywiro neu ddileu eich data a gasglwyd fel rhan o'r broses hon. Bydd y wybodaeth a roddwch yn rhan o broses weinyddol ein mynwentydd a bydd gennym hawl i'w phrosesu fel rhan o'r broses hon. Mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

14.9 Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Cymuned Llanrug, sy'n cadw'r hawl i wneud newidiadau / ychwanegiadau fel y bo'n briodol.

**Os oes unrhyw ymholiad neu gwestiwn am y rheolau yma, dylid ei gyfeirio at: -**


**Mr Meirion Jones**
**Clerc**
**Cyngor Cymuned Llanrug**
**7 Nant y Glyn**
**Llanrug**
**Gwynedd**
**LL55 4AH**

**E bost:** clerc@llanrug.cymru

**☎ 07769 112875**

Apendics 1

# FFIOEDD MYNWENT LLANRUG O'R 1AF O EBRILL 2024

**Agor bedd newydd**

i un sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £365

i un sydd ddim wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £730

**Ail agor bedd**

i un sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £305

i un sydd ddim wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £610

**Claddu Llwch**

i un sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £243

i un sydd ddim wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £486

**Ail agor plot llwch**

i un sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £183

i un sydd ddim wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £366

Ffi ymchwilio (pawb) £60

**Ffi gosod cofeb**

codi cofeb o'r newydd neu ail osod cofeb ar gyfer rhywun sydd wedi byw yn barhaol yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £110

codi cofeb o'r newydd neu ail osod cofeb ar gyfer rhywun sydd ddim wedi byw yn barhaol yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £220